# Appendix 32N

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

CLIVE McGREGOR
Cynghorydd - Councillor

Arweinydd y Cyngor Sir
Leader of the County Council

Swyddfa'r Sir - Council Offices
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

ffôn / tel: (01248) 752137
ffacs / fax: (01248) 752121

E-bost: cmxau@ynysmon.gov.uk
E-mail: cmxau@anglesey.gov.uk

Ein Cyf - Our Ref: CMcG/MWJ
Eich Cyf - Your Ref:

6 Tachwedd, 2009.

Cynghorydd Elwyn Schofield,
Olgra,
Marianglas,
Ynys Môn.
LL73 8PL

Annwyl Elwyn,

Amgaeaf gopi o'r ddogfen a drafodwyd gennym neithiwr fel y addewais. 'Rwyf yn bryderus o glywed eich bod yn bwriadu ymddiswyddo o'r Cyngor ac yn meddwl gwneud anerchiad cyhoeddus yn y Cyngor Sir am y rhesymau tu cefn i'ch penderfyniad. Deallaf eich bod am hysbysu'r Cyngor mai fi a baratowyd y llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr, 2008, a gafodd ei anfon at Swyddfa Archwilio Cymru. Tydwi erioed wedi gwadu mai fy ngwaith i oedd y llythyr ac yn ddigon parod i gydnabod i'r Cyngor llawn mai fi a'i ysgrifennodd.

Nid wyf yn hoffi cael gwn wedi ei anelu at fy mhen i geisio newid fy meddwl ar unrhyw fater ac felly teimlaf mai'r peth gorau fyddai i chwi orffen fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith o ddyddiad y llythyr yma. 'Roeddwn wedi gobeithio y byddech wedi derbyn y sefyllfa fod bob aelod arall a oedd tu cefn i'r penderfyniad wedi arwyddo'r llythyr ac yn barod i symud ymlaen.

Byddaf yn cadarnhau cynnwys y llythyr yma gyda chi mewn sgwrs.

Yn gywir,

[redacted]

**Cynghorydd Clive McGregor,**
**ARWEINYDD Y CYNGOR**